Ysgol Tyle'r Ynn
Polisi Codi Tâl

Cyflwyniad

Mae'r holl addysg o fewn oriau ysgol yn rhad ac am ddim. Nid ydym yn disgwyl codi tâl am unrhyw weithgaredd caiff ei gynnal fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Cyfraniadau gwirfoddol

Wrth drefnu gwibdeithiau/tripiau ysgol neu ymweliadau i gyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgiadol y plant, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i gyfrannu tuag at y gost. Mae pob cyfraniad y wirfoddol. Os nad ydym yn derbyn digon o gyfraniadau gwirfoddol, mae'n bosibl bydd rhaid canslo'r trip. Os bydd y trip yn mynd yn ei flaen, efallai bydd yn cynnwys plant sydd â'u rhieni heb wneud unrhyw gyfraniad. Nid ydym yn trin y plant yma yn wahanol i unrhyw un o'r lleill.

Os yw rhiant yn dymuno i'w plentyn gymryd rhan mewn trip neu ddigwyddiad ysgol, ond yn amharod neu heb fod yn gallu gwneud cyfraniad ariannol, rydym yn caniatáu i'r plentyn gyfranogi'n llawn yn y trip neu'r gweithgaredd. Ar adegau mae'r ysgol yn talu'r gost ychwanegol i gynnal yr ymweliad.

Mae'r canlynol yn rhestr o weithgareddau, a drefnir gan yr ysgol, sydd weithiau angen cyfraniadau gwirfoddol oddi wrth y rhieni. Caiff y gweithgareddau yma eu hadnabod fel 'ychwanegiadau opsiynol'. Nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr:

- Ymweliadau i amgueddfeydd;
- Gweithgareddau antur awyr agored;
- Ymweliadau i neu gan gwmni theatr;
- Tripiau ysgol;
- Digwyddiadau cerddorol.
- Ymweliadau Preswyl

Grant Amddifadedd Disgyblion

Yn flynyddol mae'r ysgol yn defnyddio cyfran o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cyfrannu at gost ymweliadau ysgol ac ymweliadau preswyl y disgyblion hynny sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol rhad.

Adolygwyd y polisi hwn ym Mawrth 2017